**Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol ar Dlodi Tanwydd ac Effeithlonrwydd Ynni**
**22 Mai 2019**

| Yn bresennol | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Mark Isherwood AM (Cadeirydd)** | Aelod Cynulliad | | **Claire Durkin** | Ymddiriedolwr NEA Cymru |
| **Carole Morgan-Jones** | NEA Cymru | | **Christina Nascimento** | Prifysgol Caerdydd |
| **Bethan Proctor** | NEA Cymru | | **Sioned James** | Grŵp Cynulliad Plaid Cymru |
| **Andy Edwards** | AE Energy | | **Kate Ball** | E.ON |
| **Phil Dawson** | E.ON. | | **Simon Lannon** | Prifysgol Caerdydd |
| **Stephen Chamberlain** | Llywodraeth Cymru | | **Luke Wallace** | Cartrefi Melin |
| **Sarah Paul** | Llywodraeth Cymru | | **Dave Wallace** | Cartrefi Melin |
| **Nick Speed** | Centrica | | **Andy Parker** | Calor |
| **Isabelle Michelson** | Grayling | | **Sophia Haywood** | UKLPG |
| **Jonathan Cosson** | Cymru Cynnes | | **Liz Lambert** | Cyngor Caerdydd |
| **Rhian Cook** | Cartrefi Melin | | **Jyoti Atri** | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| **Louise Woodfine** | Iechyd Cyhoeddus Cymru | | **Llyr Gruffydd AC** | Aelod Cynulliad |

| Ymddiheuriadau | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dawn Shakespeare** | FPS | | **Guy Pullman** | FPS |
| **Nigel Winnan** | WWU | | **Crispin Jones** | E.ON |
| **Eurgain Powell** | Cenedlaethau'r Dyfodol | | **Rajni Nair** | Cyngor ar Bopeth |

**1. Croeso a chyflwyniadau**

Croesawodd Mark Isherwood (MI) aelodau a rhanddeiliaid i'r cyfarfod. Nododd Carole Morgan-Jones (CMJ) yr ymddiheuriadau a gafwyd. Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2018. Dechreuodd MI drwy dynnu sylw at ffigurau tlodi tanwydd newydd Llywodraeth Cymru a ryddhawyd ar 21 Mai 2019 a welodd canran yr aelwydydd sy'n byw mewn tlodi tanwydd yn gostwng o 26% yn 2008 i 12% yn 2018. Dywedodd NEA Cymru fod y ffigurau'n galonogol ond bydd archwiliad pellach yn hanfodol pan fydd y dadansoddiad manwl yn cael ei ryddhau yn yr haf.

**2. Jyotri Atri a Louise Woodfine - Iechyd Cyhoeddus Cymru**

Croesawodd MI Jyoti Atri (JA) a Louise Woodfine (LW) o Iechyd Cyhoeddus Cymru a gyflwynodd ymgyrch y sefydliad ar gynllunio tywydd oer i gynorthwyo cartrefi bregus. Amlygwyd ystadegau marwolaethau ychwanegol y gaeaf (MYG) a thrafodwyd y rheini sydd mewn perygl. Roedd cynnydd

mawr yn nifer yr MYGau yn ystod gaeaf 2017-18. Rhestrwyd y rhesymau dros bwysau'r gaeaf a oedd yn cynnwys diffyg paratoi'n ddigonol, amgylchiadau bregus, tai oer, tlodi tanwydd, a gwasanaethau gofal sylfaenol sydd dan bwysau. Amlygwyd mai Cymru sydd â'r gyfradd uchaf o dderbyniadau gaeaf i ysbytai yn y DU, er gwaethaf tymheredd oerach yr Alban. Nododd JA gyfraniad Iechyd Cyhoeddus Cymru at leihau effaith tywydd oer gan gynnwys prosiect pwysau'r gaeaf, cynllunio ffliw, a modelau newydd o ofal ac atal mewn lleoliadau clinigol (Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif).

Soniodd LW am feysydd gweithgaredd cyfredol, gan gynnwys adroddiad ar gost lawn tai gwael yng Nghymru, sy'n cael ei gynnal gan Lywodraeth Cymru gyda BRE, sydd i'w gyhoeddi maes o law, a bydd yn cyflwyno'r achos dros fuddsoddi mewn Iechyd a Thai yng Nghymru yn ogystal ag ystyried ymyriadau sy'n digwydd yn y DU yn ogystal â thu hwnt.

Roedd gweithgaredd arall yn cynnwys gwaith iechyd a thai ar y cyd a chefnogi meysydd arfer da. Nododd LW effaith tai oer ar iechyd a lles, ac amlygodd fod plant agored i niwed ddwywaith yn fwy tebygol o gael problemau anadlu oherwydd byw mewn tai oer. Nododd LW yr amcangyfrifir mai cost gwella cartrefi oer yw £2,500 y cartref, a dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o leihau cost i'r GIG. Mae tai oer yn costio £95 miliwn y flwyddyn i GIG Cymru. Siaradodd LW am gydweithio â Chymru Gynnes, rhaglen waith ar y cyd â Chartrefi Cymunedol Cymru, grŵp iechyd cyhoeddus a thai, rhestr gyfeirio bwrdd iechyd, a chymorth i'r cynllun Cartrefi Iach, Pobl Iach yng ngogledd Cymru.

**3. Stephen Chamberlain (SC), Adran Tlodi Tanwydd Llywodraeth Cymru**

Mae SC yn arwain ar ddatblygiad y cynllun tlodi tanwydd newydd. Dywedwyd bod angen cryfhau sawl pwynt yn y cynllun newydd. Holodd SC a ddylid diwygio'r diffiniad o dlodi tanwydd. Dywedwyd y gallai Llywodraeth Cymru ehangu'r penderfynyddion i gynnwys effeithiau newid yn yr hinsawdd ar gadw tŷ'n gynnes, ac agweddau ac ymddygiad deiliaid tai tuag at ddefnyddio technoleg. Pwysleisiwyd bod perchen ar eiddo yn golygu cyfrifoldeb i'w gynnal a'i gadw.

Cytunodd y Gweinidog ar gynnal cynllun peilot cyflwr iechyd, a bydd y cynllun newydd yn nodi a fydd hyn yn cael ei ymgorffori. Tynnwyd sylw at y dull atgyfeirio, roedd y trothwy ariannol yn rhy isel a meini prawf graddio'r EPC hefyd yn rhy isel, ac nid ydynt wedi'u halinio â chanllawiau NICE i osgoi afiechyd.

Nid yw'r cyllid ar gyfer mesurau wedi'i gynnwys yn y cynllun cyfredol, felly rhoddir sylw i hyn yn ogystal ag arloesedd. Dywedwyd hefyd y bydd cydgysylltu gwasanaethau cynghori yn cael ei ystyried yn y cynllun newydd. Gorffennodd SC trwy grybwyll y bydd rhanddeiliaid yn cyfarfod yn yr haf, a bwriedir cyhoeddi dogfen i ymgynghori arni yn yr hydref, gyda'r nod o gyhoeddi cynllun terfynol ym mis Chwefror 2020.

4. **Trafodaeth**

Gofynnodd CMJ am yr ystadegau tlodi tanwydd newydd. Dywedodd SC ei bod yn ymddangos yn anhygoel bod gostyngiad o'r fath wedi digwydd mewn dwy flynedd. Esboniwyd bod data 2016 yn seiliedig ar hen set ddata. Er bod y ffigurau'n gadarnhaol, mae angen bod yn ofalus bod cynllun newydd yn cynorthwyo'r rhai sydd angen y cymorth fwyaf ac sydd yn y sefyllfa waethaf o ran tlodi tanwydd.

Gofynnodd Llyr Gruffydd AC pa newid oedd wedi digwydd mewn ymateb i'r datganiad brys ar newid hinsawdd. Dywedodd SC na fydd mwy o losgwyr tân olew; gellir edrych ar gapiau gwariant yn y rhaglen Cartrefi Cynnes, ac ymchwilir i ffurfiau glanach o ffynonellau gwres. Bydd yr adroddiad tai Datgarboneiddio yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach eleni a fydd yn helpu i lywio'r gwaith yn y

dyfodol i fodloni amcanion newid hinsawdd ehangach. Holodd LlG a oedd y broses wedi cyflymu, nid dim ond 'busnes fel arfer' mewn ymateb i'r datganiad newid hinsawdd. Dywedodd SC fod swyddogion eisoes yn ystyried y materion hyn ac y byddai'r datganiad yn ei gwneud yn fwy gweladwy i waith a oedd eisoes yn digwydd.

Dywedodd SC y bydd newid agweddau tuag at sut rydym yn defnyddio ynni yn allweddol wrth symud ymlaen, ac efallai y bydd angen cynghori gwasanaethau i roi rhagor o gefnogaeth gan gymryd camau dilynol.

Gofynnodd CMJ i Iechyd Cyhoeddus Cymru am y cynllun tywydd oer yr ymrwymodd y Gweinidog iddo yn y cyfarfod blaenorol ym mis Medi. Dywedodd JA nad oedd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru wybodaeth flaenorol am yr ymrwymiad hwn gan y Gweinidog. Nododd SC fod cynllun tywydd oer mewnol yn bodoli ond nad yw wedi ei gyhoeddi. Dywedodd LW fod disgwyl i adroddiad cynllunio gaeaf gael ei gyhoeddi ym mis Awst a fydd yn hysbysu Llywodraeth Cymru.

Gofynnodd CMJ a fyddai unrhyw ymrwymiad i darged tlodi tanwydd newydd yn y cynllun tlodi tanwydd newydd? Ymatebodd SC trwy ddweud nad yw cwrdd â safon EPC yn mynd i’r afael â thlodi tanwydd ac er bod angen targedau ystyrlon, mae yna lawer o benderfynyddion y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru. Roedd yn hapus i weithio gyda rhanddeiliaid ar darged uchelgeisiol.

Ailadroddodd MI ymrwymiad y Gweinidog i gynllun tywydd oer mewn cyfarfod blaenorol o'r cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Medi 2018, a gofynnodd i'r Ysgrifenyddiaeth ddrafftio llythyr iddo ysgrifennu at y Gweinidog yn gofyn am eglurhad ar y mater hwn.

**5. Cau’r Cyfarfod**

Diolchodd CMJ i Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru am eu cyflwyniadau. Gofynnwyd a oedd gan unrhyw un awgrymiadau o ran materion yr oeddent am eu trafod mewn cyfarfodydd yn y dyfodol. Awgrymodd Sophia Haywood UKLPG yr agenda datgarboneiddio. Awgrymodd MI sut yr ydym yn mynd i'r afael â thai hŷn. Awgrymodd CMJ y dylid gwahodd Gowan Watkins o LlC i egluro'r dadansoddiad manwl o'r ystadegau tlodi tanwydd a fydd yn cael ei gyhoeddi yn yr haf.

**6. Y cyfarfod nesaf**

Cynhelir cyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol ar Dlodi Tanwydd ac Effeithlonrwydd Ynni ar 1 Hydref 2019.